

This form is also available in English/ Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg hefyd

Cronfa'r Degwm

Meini Prawf a Chanllawiau

Adran 1 Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi sefydlu'r meini prawf canlynol er mwyn hwyluso'r broses o weinyddu Cronfa'r Degwm o dan Adran 19 o Ddeddf y Degwm 1914.

Pwy all wneud cais

- Eglwysi a Chapeli
- Sefydliadau
- Unigolion
- Gall consortia sydd wedi eu sefydlu'n ffurfiol neu'n anffurfiol ac sy'n gweithio ar brosiect penodol ymgeisio hefyd. Rhaid i'r sefydliadau sydd ynghlwm wrth gonsortiw m anffurfiol fod yn gymwys yn eu rhinwedd eu hunain a rhaid iddynt ddarparu copi o'u cyfansoddiad neu eu dogfen lywodraethu. Dylai'r ffurflen gais gael ei chwblhau gan y sefydliad arweiniol a fydd yn gyfrifol yn gyfreithiol am y grant ac a fydd yn derbyn y cyllid, os yw'r cais yn llwyddiannus.

Rhaid i sefydliadau fod naill ai wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin neu, os ydynt yn gyrrff cenedlaethol neu ranbarthol, rhaid iddynt allu dangos y byddai'r arian y gwneir cais amdano'n cael ei wario ar brosiect penodol yn Sir Gaerfyrddin.

Rhaid i'r cyrrff/mudiadau fod naill ai:

- yn elusen gofrestredig
- yn meddu ar dystysgrifau sy'n dyfarnu iddynt statws elusenol
- neu fod â chronfeydd sydd yn eithriedig o'r dreth incwm

Ystyrir ceisiadau am gymorth grant oddi wrth unigolion ar gyfer gweithgaredd penodol cyhyd â bod yr ymgeisydd yn byw yn y Sir.

Gwariant cymwys/Cyfradd grantiau

Gall ymgeiswyr wneud cais am gymorth grant ar gyfer y dibenion canlynol:

- Hyrwyddo addysg
- Llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau celf, ac ati.
- Lleihau tlodi
- Hyrwyddo crefydd
- Dibenion eraill sy'n llesol i'r gymuned

Y Cyngor Sir yn unig sydd â'r hawl i farnu faint o gymorth i'w gynnig.

Fel arfer bydd y cyfraddau canlynol yn berthnasol o ran gwariant cymwys a grantiau:

Eglwysi/Capeli

Gall ymgeiswyr wneud cais am **gostau cyfalaf**, gan gynnwys gwaith atgyweirio ac adnewyddu, ar gyfradd o 25% hyd at uchafswm o £3,000.

Neuaddau Pentref a Chyfleusterau Cymunedol

Gall ymgeiswyr wneud cais am **gostau referniw a/neu gostau cyfalaf**, gan gynnwys gwaith atgyweirio ac adnewyddu, ar gyfradd o 12.5% hyd at uchafswm o £3,000.

Sefydliadau

Gall ymgeiswyr wneud cais am **gostau referniw a/neu gostau cyfalaf**, hyd at uchafswm o £3,000 ar gyfradd ymyrryd o 10%.

Unigolion

Ystyrir ceisiadau oddi wrth unigolion am gymorth tuag at weithgaredd penodol, neu brentisiaeth neu leoliad swydd, yn y sir hyd at uchafswm o £150.00.

Arall

Gellir cynnig cymorth ariannol uwch o hyd at £10,000, os bydd cyfanswm cost y prosiect yn uwch na £100,000.

Gellir dyfarnu grant o £100 i bob person sy'n cymryd rhan yn Operation Raleigh.

Ni ddyfernir grantiau i brosiectau sydd wedi cychwyn cyn i'r Cyngor dderbyn ffurflen gais.

Byddwch yn gymwys i wneud cais ym mhob blwyddyn ariannol ar ôl ichi wario'ch grant a chael eich hawliad olaf wedi ei gymeradwyo.

Gwariant Anghymwys

- Ni ddyfernir grant ar gyfer gwaith sydd yn destun hawliad yswiriant.
- Ni roddir grant i ymgeisydd os bydd cyfrifoldeb statudol ar Bwyllgor arall neu'r Cyngor i gynnal gweithgareddau o'r fath.
- Ni roddir grant i sefydliadau/unigolion y mae eu cynlluniau yn cynnwys adeiladu cyfleusterau ar gyfer bar trwyddedig.

Gan ystyried yr arian cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y gronfa, ni roddir cymorth grant i'r canlynol:

- Cynghorau sydd â'r hawl i osod eu praesept eu hunain
- Cymdeithasau Gefeillio
- Cyrff a ariennir gan y Llywodraeth Ganolog ac Apeliadau sy'n ymwneud â'r dibenion y sefydlir cyrff o'r fath ar eu cyfer.

Y Broses o Gyflwyno Cais

Rhaid i'r ymgeiswyr gysylltu â'r Biwro Cymunedol drwy ffonio **01269 590216** neu fel arall drwy e-bostio Biwro@sirgar.gov.uk i gofrestru'r prosiect ac i ofyn am Ffurflen Gais.

Bydd modd cyflwyno Ceisiadau drwy gydol y flwyddyn.

Mae cymorth ar gael gan Swyddog Datblygu drwy gyfrwng y Biwro Cymunedol i ddatblygu eich prosiect ac i gwblhau Cais.

Os byddwch yn cyflwyno Cais drwy gyfrwng e-bost at Biwro@sirgar.gov.uk rhaid hefyd cyflwyno copi papur wedi ei lofnodi a'i ddyddio.

Rhoddir ystyriaeth i geisiadau am waith adeiladu a gwella **gan Gapeli ac Eglwysi yn unig** yn achos gwaith sydd wedi ei gyflawni yn y chwe mis cyn dyddiad y cais.

Rhaid i bob prosiect gael ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin.

Amodau Cyffredinol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol fel y barno'n ddoeth.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r hawl i amrywio amodau'r cynllun ar unrhyw adeg.

Bydd penderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin yn derfynol ac mae ganddo'r hawl i wrthod unrhyw gais heb ddatgelu ei resymau na phwrrpas y cyfryw benderfyniad.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r hawl i roi cyhoeddusrwydd i unrhyw gymorth a roddir ar ffurf grant.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r hawl i ddiddymu neu i hawlio'n ôl unrhyw arian grant os na lynir at yr amodau uchod.

Pa wybodaeth arall sydd angen ichi ddarparu:

Bydd angen ichi ddarparu'r wybodaeth hanfodol isod gyda'ch Ffurflen Gais:

- Copi o Ddogfen Lywodraethu wedi'i llofnodi (e.e. Cyfansoddiad)
- Cyfrifon a/neu'r Llif Arian a Ragwelir/Datganiadau Banc
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Datganiad/Polisi Amgylcheddol
- Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi TGCh
- Tystysgrifau Yswiriant, rhestr o'r hyn a yswirir gan gynnwys Atebolrwydd Cyhoeddus
- Gwybodaeth am Dystiolaeth o Angen
- Llythyron ategol

Gwybodaeth Ychwanegol lle bo'n berthnasol:

- Cynllun Busnes
- Dyfynbrisiau am Waith
- Prawf o Berchenogaeth
- Cytundebau Prydles wedi'u llofnodi (dylai prydlesau fod ag o leiaf 15 mlynedd yn weddill)
- Caniatâd gan y Landlord
- Cytundebau Cynnal a Chadw
- Trwyddedau
- Manylion y Cyfrif Banc
- Caniatâd Adeilad Rhestredig
- Caniatâd Cynllunio

- Caniatâd Amgylcheddol
- Caniatâd Cadwraeth
- Caniatâd Priffyrdd
- Rheoliadau Adeiladu
- Polisi Amddiffyn Plant
- Polisi Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed

Caiff pob cais ei gydnabod gan y Biwro Cymunedol.

Os byddwch yn llwyddiannus, anfonir Llythyr Cynnig atoch gyda Thelerau ac Amodau.

Ar ôl i Delerau ac Amodau'r cynnig grant gael eu dychwelyd ac i unrhyw ofynion caffael ac amodau grant arbennig gael eu bodloni, anfonir Llythyr Gweithredu atoch.

Byddwn yn eich cynorthwyo i drefnu prosesau i reoli'r grant er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni a'i gwblhau'n llwyddiannus, os oes angen.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus byddwn yn rhoi adborth ichi ac yn cynnig ffyrdd eraill o ddod o hyd i gyllid gwahanol i chi.

Caffael:

Gofyniad	Gwerth (heb gynnwys TAW)	Y Broses Gaffael
Pawb	hyd at £5,000	<u>Rhaid</u> cael a chadw o leiaf 1 Dyfynbris ysgrifenedig Rhaid cael gwerth gorau am yr arian a chymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y nwyddau, y gwaith, neu'r gwasanaethau a gafwyd o safon addas ac wedi eu prynu am bris cystadleuol. At ddibenion archwilio, rhaid cadw cofnod ysgrifenedig yn cefnogi'r penderfyniad.
Pawb	rhwng £5,000 a £25,000	<u>Rhaid</u> ceisio o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Rhaid seilio'r dyfynbrisiau ar yr un fanyleb a'u gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. Rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a wahoddwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.

<p>Pawb</p>	<p>rhwng £25,000 a £75,000</p>	<p>Rhaid ceisio o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig o ffynonellau cystadleuol*. Rhaid seilio'r dyfynbrisiau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb • yr un meini prawf gwerthuso a'u gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso • yr un dyddiad cau. <p>Rhaid cofnodi'r dyfynbrisiau a wahoddwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu mewn dogfen gofnodedig.</p>
<p>Nwyddau a Gwasanaethau (eitemau materol yw nwyddau h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati. Tasgau a wneir gan bobl yw gwasanaethau h.y. gwasanaethau ymgynghori, gwasanaethau cyfieithu ac ati)</p>	<p>rhwng £75,000 a £173,934</p>	<p>Rhaid ceisio o leiaf 4 tendr o ffynonellau cystadleuol*, gydag isafswm o 2 dendr yn dod i law**.</p> <p>Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb a'r un gofynion • amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract • un dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny. <p>Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i bwysu a mesur y tendrau.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un tendr i law mae'n rhaid ichi gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i roi'r manylion ac i gyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan CSC, fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, <u>gall</u> fod yn ofynnol ichi hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.</p>

Gwaith (mae'n cynnwys gwaith tirweddu, adeiladu ac ati)	rhwng £75,000 a £4,348,350	<p>Rhaid ceisio o leiaf 4 tendr o ffynonellau cystadleuol*, gydag isafswm o 3 dendr yn dod i law**.</p> <p>Rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr un fanyleb a'r un gofynion • amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract • un dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn ceisiadau ar ôl hynny. <p>Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i bwysu a mesur y tendrau.</p> <p>** Os na ddaw mwy nag un tendr i law mae'n rhaid ichi gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i roi'r manylion ac i gyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan CSC, fesul achos. Os yw'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, gall fod yn ofynnol ichi hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.</p>
Nwyddau a Gwasanaethau	mwy na £173,934	Os yw contract am Nwyddau neu Wasanaethau yn debygol o fod yn fwy na £173,934 rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i roi gwybod a yw Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr UE yn berthnasol i'r contract.
Gwaith	mwy na £4,348,350	Os yw contract am Waith yn debygol o fod yn fwy na £4,348,350 rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i weld a yw Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus yr UE yn berthnasol i'r contract.

* Mae'n bosibl ichi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, www.GwerthwchiGymru.llyw.cymru os yw'n anodd ichi gael hyd i gyflenwyr a/neu os hoffech newid cyflenwyr neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr. Bernir mai hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru yw'r arfer gorau. Mae'r cyfleuster hwn ar gael ichi yn rhad ac am ddim - e-bostiwrch support@buy4wales.co.uk i gael rhagor o wybodaeth.

- Fodd bynnag, efallai y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.
- Gall methiant i gadw at y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir uchod gael ei ystyried yn ddiffyg cydymffurfio a gallai hynny arwain at dynnu'n ôl y cynnig o grant a hawlio'r arian yn ôl o bosibl.
- Mewn achosion lle na allwch gydymffurfio â gofynion y gweithdrefnau hyn, rhaid ichi roi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin bob tro.
- Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch sut i weithredu'r gweithdrefnau hyn, cysylltwch â'r Biwro Cymunedol i gael eglurhad a chyfarwyddyd pellach.

Osgoi gwrthdaro buddiannau wrth gaffael

Sylweddolwn y gallai ymgeiswyr, neu unigolion sy'n gysylltiedig â nhw (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion), ddymuno tendro am contract sy'n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd. Mae hynny'n dderbyniol ond bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a'i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros un arall.

Os oes gan ymgeisydd / datblygwr, neu unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â nhw, fudd mewn unrhyw gynnig am contract a gynigir:

- Rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr, unigolyn neu barti sydd â budd, ddatgan y cyfryw fudd yn ysgrifenedig.
- Ni ddylai'r unigolyn neu barti sydd â budd gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau i arfarnu'r tendrau.

I gael rhagor o gyfarwyddyd neu wybodaeth am gaffael, cysylltwch â'r Biwro Cymunedol drwy ffonio 01269 590216 neu drwy e-bostio Biwro@sirgar.gov.uk.

Canlyniad y Penderfyniad

- Anfonir llythyron Canlyniad y Penderfyniad ar ôl Cyfarfod o Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.
- Bydd pob cynnig o gymorth ariannol yn amodol ar dri cham;
 - **Cam 1** – Telerau ac Amodau safonol y gronfa ac unrhyw amodau ychwanegol a argymhellir gan y panel. Rhaid i Delerau ac Amodau'r cynnig gael eu llofnodi gan ddau aelod o'r sefydliad a'u dychwelyd at Gyngor Sir Caerfyrddin cyn pen ugain diwrnod ar ôl derbyn y Llythyr Cynnig.
 - **Cam 2** – Cam Caffael (Ile bo'n berthnasol, neu fel arall yn syth i Gam 3). Pan fydd y Telerau ac Amodau a lofnodwyd yn dod i law, anfonir Ffurflen Caffael Prosiect. Bydd angen i hon gael ei chwblhau â'r holl fanylion caffael e.e. tendrau a dyfynbrisiau, a'i llofnodi a'i dychwelyd.
 - **Cam 3** – Ar yr amod bod yr holl ddogfennaeth a dyfynbrisiau perthnasol yn eu lle, anfonir Llythyr Gweithredu at y sefydliadau.

Mae'n bwysig eich bod yn gadael digon o amser i Gais gael ei brosesu. Ni all y cynllun hwn gyllido unrhyw gostau yr aed iddynt, neu yr ymrwymwyd iddynt, cyn ichi dderbyn Cynnig Grant ffurfiol.

Apeliadau

Nid oes hawl i apelio yn erbyn ceisiadau sydd wedi cael eu gwrthod, ond rhoddir adborth. Rydym yn croesawu eich adborth chi hefyd.

Cyllido Ôl-weithredol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gorff cyllido ôl-weithredol. Mae'n rhaid i grwpiau dalu ymlaen llaw am holl wariant y prosiect a hawlio'r cyllid a ddyrannwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Gweithdrefn Cwynion, Canmoliaeth a Sylwadau

Fel Cyngor rydym yn benderfynol o wneud y gwasanaeth a ddarperir gennym i chi mor effeithiol â phosibl. Rydym yn gwerthfawrogi eich sylwadau ac rydym am weithio ynghyd i gyflawni'r nod hwn.

Rydym yn cydnabod ei fod yn bwysig inni ddysgu o'r hyn sydd gennych i'w ddweud, nid yn unig er mwyn ymdrin â'ch mater chi ond hefyd i sicrhau ein bod yn gwella ein gwasanaethau.

Gallwch gyflwyno eich cwyn, eich canmoliaeth neu'ch sylw mewn nifer o ffyrdd.

Gallwch:

Wedi'i adolygu v1 2016

- Fynd i un o'n Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid (yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman)
- Llenwi'r ffurflen sydd wedi ei hargraffu yn y daflen 'Dweud eich dweud'.
- Mynd i'n gwefan:- www.sirgar.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr, ffonio, neu anfon e-bost at y Swyddog Cwynion, Canmoliaeth a Sylwadau ar gyfer y gwasanaeth yr hoffech wneud sylw amdano (rhoddir manylion cyswllt yn y daflen 'Dweud eich dweud').
- Siarad â'ch Cynghorydd Sir lleol.

Y Gymraeg

Mae'r Biwro Cymunedol o'r farn na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Cynhwysiant Digidol

Mae cynhwysiant digidol yn fater o sicrhau bod pobl, boed yn ddinasyddion neu'n gwsmeriaid, yn elwa'n uniongyrchol ar y newidiadau technolegol sy'n digwydd yn gyflym yn ein cymdeithas. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r we mewn ffyrdd sy'n gwella'u bywydau ac yn eu helpu i oresgyn unrhyw anfanteision y gallent fod yn eu hwynebu.

Ar ôl llenwi'r ffurflen anfonwch hi at:

Cronfa'r Degwm
Y Biwro Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin
Canolfan Adnoddau Busnes
Parc Amanwy
Heol Newydd
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 3EP

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Biwro Cymunedol drwy ffonio 01269 590216 neu anfon e-bost at Biwro@sirgar.gov.uk.